

## **Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd**

Ym mis Medi 2022, dechreuodd y broses o gyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd ar draws Cymru, gan gychwyn gyda disgyblion y dosbarth Derbyn. Mae'r polisi'n rhan o Gytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, fydd yn gweld prydau ysgol am ddim yn cael eu hymestyn i bob disgybl ysgol gynradd dros y ddwy flynedd nesaf.

O fewn Rhondda Cynon Taf, bydd y Cyngor yn cyflwyno'r cynnig fel a ganlyn:-

- O 5 Medi 2022 ymlaen, bydd pob disgybl oedran y Derbyn wedi cael cynnig Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd.
- O fis Ionawr 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys disgyblion Blwyddyn 1.
- O fis Ionawr 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys disgyblion y Meithrin, sydd yn gymwys.
- O fis Ebrill 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys disgyblion Blwyddyn 2.
- O fis Medi 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys disgyblion Blynnyddoedd 3 a 4.
- O fis Ebrill 2024, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6.

## **Cwestiynau Cyffredin - Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd**

### **C. Pam dydych chi ddim yn darparu Prydau ysgol am Ddim i bob plentyn Cynradd o fis Medi 2022?**

A: Bydd y cynnig cyffredinol yn arwain at lawer o brydau ychwanegol yn cael eu coginio a'u gweini. Yn anffodus, does dim modd i'r ceginau ysgol presennol ymdopi â'r cynnydd. Ers y cyhoeddiad i gynnig prydau ysgol am ddim i bob plentyn cynradd, rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed i oresgyn heriau o ran seilwaith, storio, offer, a staffio. Bydd cyflwyno grwpiau blwyddyn fesul cam yn rhoi amser i ddatrys yr heriau yma, a chynnal darpariaeth gyfartal ar draws yr awdurdod ar yr un pryd.

**C. A oes angen i mi wneud cais am Brydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd unwaith mae fy mhlentyn yn gymwys?**

A: Does dim angen i rieni wneud cais am Brydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, ond dylai'r rheiny a fyddai wedi gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim yn flaenorol wneud hynny o hyd.

**C. Roedd fy mhlentyn yn cael Prydau Ysgol Am Ddim ond mae bellach yn gymwys i gael Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd. Pam mae rhaid i mi lenwi ffurflen gais ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim?**

A: Mae rhaid i chi wneud cais am Brydau Ysgol Am Ddim, hyd yn oed os ydych chi'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, gan y bydd hyn yn effeithio ar eich hawl bosibl i Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad. Gwnewch gais yma:-

<https://forms.rctcbc.gov.uk/cy/Gwe/Coronavirusfmsignup/ContactDetails>

[S](#)

**C. Os yw fy mhlentyn yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, ond yn mynd ar drip ysgol a fydd yn dal i dderbyn pryd o fwyd?**

A: Bydd. Bydd pecyn bwyd yn cael ei ddarparu ar gyfer y diwrnod hwnnw.

**C. Os yw fy mhlentyn yn sâl a ddim yn mynd i'r ysgol, a fyddaf yn derbyn taliad yn lle'r bwyd?**

A: Na fyddwch. Does dim ad-daliad ar gyfer disgybl sydd ddim yn yr ysgol i dderbyn ei Brydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd.

**C. Dydy fy mhlentyn ddim yn derbyn ei addysg mewn Sefydliad Addysgol Gwladol, ond yn hytrach mewn lleoliad amgen. A ydy e/hi'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd?**

A: Nac ydy. Mae amodau grant Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd Llywodraeth Cymru'n nodi mai dim ond ar gyfer disgyblion mewn lleoliad gwladol y mae'r ddarpariaeth ar gael.

**C. Dydw i ddim yn siŵr a fydd fy mhlentyn yn bwyta'r bwyd sy'n cael ei ddarparu bob dydd; a oes modd iddo fe/iddi hi ddod â phe cyn bwyd gyda nhw o hyd?**

A: Byddwn ni'n annog yn gryf fod pob disgybl cymwys yn manteisio ar ei Brydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd. Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth eang o fwyd i geisio sicrhau bod rhywbeth at ddant pawb. Serch hynny, pe bai'n well gyda chi ddarparu pecyn bwyd, mae croeso i chi wneud hynny.

**C. Mae gan fy mhlentyn ddiet arbennig yn ei le yn barod, ond hyd yn hyn rydw i wedi talu am ei fwyd. Unwaith y bydd fy mhlentyn yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, a fydd yn rhaid i mi wneud cais arall am y diet?**

A: Os does dim newid wedi bod i'r anghenion dietegol, does dim angen gwneud cais eto am ddiet arbennig. Os oes unrhyw beth wedi newid, bydd angen i ni wneud y trefniadau angenrheidiol cyn i'ch plentyn dderbyn pryd o fwyd. Os oes gyda chi unrhyw amheuaeth ynghylch pa wybodaeth ddietegol sydd gyda ni ar hyn o bryd, anfonwch e-bost aton ni [gwasanaethauarlwyo@rctcbc.gov.uk](mailto:gwasanaethauarlwyo@rctcbc.gov.uk).

Pe hoffech eglurhad pellach ar unrhyw un o'r atebion sydd wedi'i ddarparu uchod, neu, os oes gyda chi gwestiwn dydyn ni ddim wedi'i ateb eto, ebostiwch ni [gwasanaethauarlwyo@rctcbc.gov.uk](mailto:gwasanaethauarlwyo@rctcbc.gov.uk) neu ffoniwch 01443 281141.